GwerthwchiGymru

Canllaw i Brynwyr - Dyfynbris Cyflym

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Tabl Cynnwys

Beth yw Dyfynbris Cyflym? 2

Lefelau Mynediad Dyfynbris Cyflym 2
Eich Panel Rheoli Dyfynbris Cyflym 3

Sut gallaf greu Dyfynbris Cyflym? 4
Sut gallaf ddosbarthu Dyfynbris Cyflym? 6
Sut gallaf ddewis Cyflenwyr i gyflwyno Dyfynbris Cyflym? 7
Sut gallaf ychwanegu Cyflenwyr at Ddyfynbris Cyflym? 9
Sut gallaf weinyddu Dyfynbris Cyflym? 10
Sut gallaf ddelio ag ymatebion Dyfynbris Cyflym? 12

Sut gallaf greu Dyfarniad Dyfynbris Cyflym? 13
Beth fydd Cyflenwyr yn ei dderbyn pan fyddaf yn rhyddhau hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym? 14
Sut gallaf ddadansoddi Gweithgarwch Dyfynbris Cyflym? 15

Beth yw Dyfynbris Cyflym?

Mae Dyfynbris Cyflym yn gyfleuster cyflwyno dyfynbrisiau ar-lein sy'n galluogi prynwyr i gael dyfynbrisiau cystadleuol am ofynion gwerth isel yn electronig. Caiff manylion y Dyfynbris Cyflym eu creu ar-lein drwy'r dewin creu hysbysiad a'u dosbarthu i restr ddethol o gyflenwyr. Mae sawl ffordd o hidlo a dewis y cyflenwyr yr hoffech eu gwahodd i gyflwyno dyfynbris. Dim ond at gyflenwyr dethol y dosberthir Dyfynbrisiau Cyflym ac ni chânt eu cyhoeddi ar y porth.

Yna gall y cyflenwyr a ddewisir gwblhau'r manylion gofynnol a chyflwyno eu dyfynbris gan ddefnyddio'r Blwch Postio (am ragor o wybodaeth am hyn, gweler y Canllaw ar y Blwch Postio).

Cyn defnyddio'r cyfleuster Dyfynbris Cyflym dylai defnyddwyr wneud y canlynol:

1. Bodloni eu hunain bod defnyddio'r cyfleuster Dyfynbris Cyflym yn cyflawni eu rhwymedigaethau o ran cyhoeddusrwydd digonol,
2. Sicrhau bod y broses gaffael/cystadleuaeth fach yn cael ei chynnal ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith â gwerth/risg isel,
3. Sicrhau nad oes unrhyw gontract presennol y gellir cael mynediad iddo,
4. Sicrhau bod y dyfynbris hwn yn gyson â'ch cyfarwyddiadau ariannol lleol.

(nodyn i Lywodraeth Cymru - darparwyd y testun hwn gan Lywodraeth yr Alban - rhowch wybod a yw'n addas)

Lefelau mynediad Dyfynbris Cyflym

Er mwyn i brynwyr allu creu a dosbarthu Dyfynbrisiau Cyflym, mae'n rhaid iddynt gael y lefelau mynediad perthnasol:

Golygydd Dyfynbris Cyflym
Mae'n eich galluogi i greu a golygu Dyfynbris Cyflym cyn iddo gael ei ddosbarthu, a chael eich dewis i agor y Blwch Postio Dyfynbris Cyflym.

Cyhoeddwr Dyfynbris Cyflym
Mae'n eich galluogi i ddosbarthu Dyfynbris Cyflym i gyflenwyr dethol, ychwanegu gwybodaeth ychwanegol i Ddyfynbris Cyflym a ddosbarthwyd, a chael eich dewis i agor y Blwch Postio Dyfynbris Cyflym.

Yn ddelfrydol, dylai unrhyw ddefnyddiwr sy'n gyfrifol am ddelio â Dyfynbrisiau Cyflym gael y ddwy lefel mynediad. Gall defnyddiwr â mynediad *Rheolwr* wneud hyn drwy ddewis 'Proffil Prynwr / Rhestr Defnyddiwr'. O'r rhestr defnyddiwr, gall y Rheolwr ddewis newid cofrestriad defnyddiwr.

Eich Panel Rheoli Dyfynbris Cyflym

Gallwch fynd i'ch Panel Rheoli Dyfynbris Cyflym o'ch Panel Rheoli drwy glicio ar "Dyfynbrisiau Cyflym". Mae'n rhoi dolenni i'ch holl Ddyfynbrisiau Cyflym a'ch Dyfarniadau Dyfynbris Cyflym.

Panel Rheoli Dyfynbris Cyflym

Sut gallaf greu Dyfynbris Cyflym?

O'ch Gweithfan Dyfynbris Cyflym, dewiswch y ddolen "Creu Dyfynbris Cyflym Newydd".

Teitl a Natur
Gofynnir i chi ddarparu teitl ar gyfer eich Dyfynbris Cyflym a dewis natur y contract. Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, cliciwch "Confirm".

Creu Dyfynbris Cyflym



Unwaith y byddwch wedi clicio ar "Cadarnhau", cewch eich tywys i'r rhestr o gwestiynau lle y gallwch weithio drwy bob cwestiwn gan ddefnyddio'r botwm "Nesaf" neu'r gwymplen "Ewch i Gwestiwn".

Caiff yr ateb i bob cwestiwn ei storio drwy glicio ar y botymau "Nesaf" neu "Cadw a Gadael" a gallwch roi'r gorau i'r broses unrhyw bryd a dychwelyd yn ddiweddarach i gwblhau'r holl gwestiynau.

Mae'r Dyfynbris Cyflym yn cynnwys y cwestiynau canlynol:

Manylion yr awdurdod prynu
Dylai eich manylion, gan gynnwys enw cyswllt, adran a rhif ffôn gael eu nodi yma.

Disgrifiad o ofynion y contract
Blwch testun gwag lle gallwch ddisgrifio gofynion y dyfynbris.

Faint sydd ei angen

Maes dewisol lle gallwch nodi faint sydd ei angen.

Amserlenni Dyfynbrisiau Cyflym
Y dyddiad cau ar gyfer anfon tendrau sydd wedi'u cwblhau i'r blwch postio. Rhaid i chi ddewis dyddiad ac amser cau ar gyfer y Blwch Postio.

Gwybodaeth Arall
Blwch testun gwag ar gyfer unrhyw wybodaeth atodol.

Categorïau Nwyddau
Dewiswch y categori/categorïau nwyddau sy'n ymwneud â'r gofyniad. Bydd y categorïau nwyddau a ddewisir yma yn cynhyrchu'r rhestr "paru cyflenwyr" ar y dudalen Dosbarthu Dyfynbris Cyflym. Gallwch roi'r gorau i ddefnyddio'r categorïau hyn a chwilio mewn ffyrdd eraill ar y cam dosbarthu os na fydd cyflenwr rydych yn chwilio amdano wedi dewis yr un categorïau.

Opsiynau Ychwanegol
Gallwch ddefnyddio'r cyfleuster Dogfennau Ychwanegol a Chwestiynau ac Atebion.

Dogfennau Ychwanegol
Gellir uwchlwytho hyd at gyfanswm o 100MB o ffeiliau ar gyfer pob Dyfynbris Cyflym unigol

Noder! Ar gyfer y cyflenwyr, pennir uchafswm maint o 10Mb ar gyfer unrhyw ddogfen a anfonir yn ôl drwy'r Blwch Postio. Ni ddylai maint yr ymateb a anfonir i'r Blwch Postio fod yn fwy na 30Mb. Gall cyflenwyr greu cynifer o ymatebion ag sydd eu hangen gan fod y system yn caniatáu iddynt anfon mwy nag un ymateb.

Gweinyddwr Cwestiynau ac Atebion
Dewiswch y defnyddiwr y dylai'r system gyfeirio cwestiynau, ymholiadau gan gyflenwyr, rhybuddion a gwybodaeth arall am yr hysbysiad hwn ato.

Agorwr y Blwch Postio
Dewiswch y defnyddiwr/defnyddwyr yr hoffech iddo/iddynt agor y Blwch Postio er mwyn lawrlwytho'r dyfynbrisiau. Gan fod y Dyfynbrisiau Cyflym ar gyfer gofynion gwerth isel, nid oes angen lefel mynediad "Agorwr". Gall unrhyw un â mynediad "Golygydd Dyfynbris Cyflym" gael ei ddewis i agor y Blwch Postio ar gyfer Dyfynbris Cyflym. (Am ragor o wybodaeth am y swyddogaeth hon, gweler y Canllaw ar y Blwch Postio)

Unwaith y byddwch wedi ateb pob un o'r cwestiynau perthnasol, bydd y broses o greu Dyfynbris Cyflym wedi'i chwblhau a bydd gennych yr opsiwn o weld y dyfynbris cyn iddo gael ei ddosbarthu, ei ddosbarthu neu ddychwelyd at weithfan yr hysbysiad.

Sut gallaf ddosbarthu Dyfynbris Cyflym?

Pan fyddwch yn barod i ddosbarthu Dyfynbris Cyflym, bydd rhaid i chi glicio ar y ddolen "Dosbarthu'r Hysbysiad" er mwyn dechrau'r broses ddosbarthu:

Tudalen Cwblhawyd y gwaith o Greu'r Dyfynbris Cyflym

Fel arall, os ydych yn dychwelyd i Ddyfynbris Cyflym o'ch rhestr o Ddyfynbrisiau Cyflym anghyhoeddedig, gallwch glicio ar deitl y Dyfynbris Cyflym ac yna'r botwm "Dosbarthu".

Yna cewch eich cyfeirio at y Dudalen Dosbarthu Dyfynbris Cyflym lle y byddwch yn dewis y cyflenwyr yr hoffech eu gwahodd i gyflwyno dyfynbris.

Sut gallaf ddewis Cyflenwyr i gyflwyno Dyfynbris Cyflym?

Dosbarthu Dyfynbris Cyflym



Mae dwy ffordd o ddod o hyd i Gyflenwyr:

Mae **Canfod Cyflenwr** yn eich galluogi i chwilio drwy'r cyfeiriadur *Canfod Cyflenwr*.

Mae **Paru Cyflenwyr** yn eich galluogi i chwilio drwy'r gronfa ddata lawn o gofrestriadau cyflenwyr. Bydd hyn yn eich galluogi i ddod o hyd i gyflenwyr nad oes ganddynt Broffil *Canfod Cyflenwr*.

Bydd y ddau yn rhoi rhestr o gyflenwyr sy'n cyfateb i'r codau nwyddau a ddewiswyd yn ystod y broses o greu'r Dyfynbris Cyflym.

Gallwch hidlo'r rhestrau hyn ymhellach drwy ddefnyddio unrhyw gyfuniad o'r paramedrau fel a ganlyn:

Canfod Cyflenwr:

Hepgor Categorïau Nwyddau - Rhowch y gorau i ddefnyddio'r categori/categorïau nwyddau a ddewiswyd tra roeddech yn creu'r Dyfynbris Cyflym er mwyn chwilio drwy'r cyfeiriadur cyfan.
Dangos BBaChau yn unig - Cyfyngwch eich chwiliad i'r cyflenwyr hynny a nododd fod ganddynt lai na 250 o gyflogeion.
Enw'r Cwmni - Chwiliwch am gwmni penodol.
Rhanbarth - Chwiliwch am gyflenwyr sy'n gweithredu mewn rhanbarth penodol.
Geiriau allweddol - Chwiliwch am eiriau allweddol penodol er mwyn dod o hyd i gyflenwyr sydd wedi defnyddio'r geiriau hyn yn eu proffil *Canfod Cyflenwr*.

Cod post - Chwiliwch am gyflenwyr mewn ardal cod post benodol, h.y. CF, CF4

Paru Cyflenwyr:

Hepgor Categorïau Nwyddau - Rhowch y gorau i ddefnyddio'r categori/categorïau nwyddau a ddewiswyd tra roeddech yn creu'r Dyfynbris Cyflym er mwyn chwilio drwy'r gronfa ddata lawn o gofrestriadau cyflenwyr.
Enw'r Cwmni - Chwiliwch am gwmni penodol.
Rhanbarth - Chwiliwch am gyflenwyr sydd wedi cofrestru mewn rhanbarth penodol.
Cod post - Chwiliwch am gyflenwyr mewn ardal cod post benodol, h.y. CF, CF4

Dosbarthu Dyfynbris Cyflym - Canfod cyflenwr



Sut gallaf ychwanegu cyflenwyr at Ddyfynbris Cyflym?

Er mwyn ychwanegu cyflenwyr yr hoffech eu gwahodd i gyflwyno dyfynbris at y rhestr ddosbarthu, rhaid i chi dicio'r blwch i'r chwith o enw'r cyflenwr a chlicio ar "Ychwanegu". Gallwch ychwanegu sawl cyflenwr ar yr un pryd.



Gallwch chwilio cynifer o weithiau ag sydd ei angen, gan ychwanegu cyflenwyr at y rhestr ddosbarthu ac yna gynnal chwiliad newydd.

Rhestrir pob cyflenwr a ychwanegir gennych yn y tab Rhestr ddosbarthu. Os hoffech ddileu rhywun o'r rhestr ddosbarthu, gallwch glicio ar "Dileu" wrth ymyl ei enw.

Unwaith rydych yn fodlon ar eich rhestr ddosbarthu, cliciwch ar "Dosbarthu". Drwy glicio ar "Dosbarthu", anfonir e-bost at yr holl gyflenwyr ar y rhestr yn eu hysbysu am y cais am ddyfynbris ac yn gofyn iddynt fewngofnodi i'r wefan er mwyn derbyn neu wrthod y gwahoddiad. Byddwch hefyd yn derbyn neges e-bost yn cadarnhau bod eich Dyfynbris Cyflym wedi'i ddosbarthu.

Eich cyfeiriad e-bost chi gaiff ei nodi yn y maes "oddi wrth" yn yr e-bost fel bod unrhyw ymatebion uniongyrchol i'r e-bost yn cael eu hanfon i'ch cyfeiriad e-bost cofrestredig.

Sut gallaf weinyddu Dyfynbris Cyflym?

Unwaith y caiff Dyfynbris Cyflym ei ddosbarthu, gallwch fynd iddo o'ch rhestr o Ddyfynbrisiau Cyflym cyhoeddedig yn eich Panel Rheoli Dyfynbris Cyflym. Os bydd angen, gall unrhyw ddefnyddiwr â mynediad *Cyhoeddwr Dyfynbris Cyflym*:

- **Ychwanegu Cyflenwr newydd at y rhestr ddosbarthu** drwy glicio ar y ddolen "Ychwanegu cyflenwr newydd at y rhestr ddosbarthu", chwilio am y cyflenwr a chlicio ar "Dosbarthu" eto. Bydd y cyflenwr newydd yn derbyn neges e-bost yn ei wahodd i gyflwyno dyfynbris a chaiff ei ychwanegu at y rhestr ddosbarthu.

- **Canslo'r Dyfynbris Cyflym** drwy glicio ar 'Canslo' wrth ymyl "Dyddiad cau". Bydd hyn yn hysbysu pob un o'r rheini ar y rhestr ddosbarthu bod y dyfynbris cyflym wedi'i ganslo.

- **Newid y dyddiad cau ar gyfer ymatebion** drwy glicio ar 'Newid' wrth ymyl "Dyddiad cau". Bydd hyn yn hysbysu pob un o'r rheini ar y rhestr ddosbarthu bod y dyddiad cau wedi newid a bydd yn ailosod dyddiad cau'r blwch postio electronig.

- **Ychwanegu gwybodaeth neu ddogfennau ychwanegol.** Caiff y wybodaeth/dogfennau ychwanegol eu hanfon at y sawl sydd ar y rhestr ddosbarthu drwy neges e-bost.

- **Ateb/hepgor cwestiynau** a ofynnir drwy'r system Cwestiynau ac Atebion.

Statws y Dyfynbris Cyflym

Manylion Cyn Cyhoeddi

Rhif Adnabod y Ddogfen:	**1624** Edrych ar destun y Dyfynbris Cyflym Cyn Cyhoeddi
Teitl:	**gwasanaethau plymio**
Natur y Contract:	**Contract Gwasanaethau**
Language:	**[CY]Welsh[/CY]**
Statws:	**Dispatched**
Crëwyd:	**28/06/2013 11:42 gan Duncan Dallas**
Diwygiwyd Ddiwethaf:	**28/06/2013 11:43 gan Duncan Dallas**
Rhyddhawyd:	**28/06/2013 11:47**

Manylion Cyhoeddedig

Rhif Adnabod:	**JUN046035**
Camau gweithredu:	Edrych ar Destun Cyhoeddedig Dyfynbris Cyflym
	Newid Dyddiad Cau Dyfynbris Cyflym
	Canslo Dyfynbris Cyflym
Teitl:	**gwasanaethau plymio**
Cyhoeddwyd:	**28/06/2013 11:47 gan Duncan Dallas**
Dyddiad cau:	**06/08/2013 at 12:00**
Dyddiad Archifo:	-
Gweladwy ar y Wefan:	**Na, ni chaiff Dyfynbrisiau Cyflym byth eu harddangos ar y wefan**
Rhestr Ddosbarthu:	6 cyflenw(y)r sydd ar y rhestr ddosbarthu ar hyn o bryd
	View Distribution List
	Ychwanegu cyflenwr at y rhestr ddosbarthu

Sut gallaf ddelio ag ymatebion Dyfynbris Cyflym?

Gallwch fonitro ymatebion cyflenwyr o'ch Dyfynbris Cyflym drwy glicio ar deitl y Dyfynbris Cyflym. Yna, ar y dudalen sy'n nodi statws y Dyfynbris Cyflym, cliciwch ar "Gweld y Rhestr Ddosbarthu".

Dyfynbris Cyflym - Ymatebion Cyflenwyr

Dyfynbris Cyflym - Ymatebion Cyflenwyr

Isod ceir rhestr o'r cyflenwyr a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbris. Mae'r rhestr yn dangos pob cyflenwr a statws cadarnhau'r cyflenwr.

Ar ôl derbyn y Dyfynbris Cyflym, gofynnwyd i bob cyflenwr dderbyn neu wrthod y cais i gyflwyno dyfynbris. Rhestrir eu hymatebion o dan Statws Cadarnhau.

Lawrlwytho fel Excel | Lawrlwytho fel CSV

Rhif adnabod	Cyflenwr	Enw'r Cwmni	Statws Cadarnhau	Gwahoddwyd Ar	Gwahoddwyd Gan
643	Elgan Richards	Business Wales	No Response	28/06/2013 11:47	Duncan Dallas
645	Marjorie Utility Robertson	Millstream at Drumlithie	Declined - View Reason	28/06/2013 11:47	Duncan Dallas
644	Ed Ryan	Eds test	Confirmed	28/06/2013 11:47	Duncan Dallas
646	Helen Oliver	Oliver Solutions Ltd	No Response	28/06/2013 11:47	Duncan Dallas
642	Llinos Price	Business Wales	No Response	28/06/2013 11:47	Duncan Dallas
641	Helen Evans	Business Wales	No Response	28/06/2013 11:47	Duncan Dallas

Mae'r enghraifft uchod yn dangos bod un cyflenwr wedi cadarnhau ei fod yn bwriadu cyflwyno dyfynbris ac un wedi gwrthod y gwahoddiad. Nid yw'r cyflenwr arall wedi ymateb i'r gwahoddiad o'i weithfan Dyfynbris Cyflym eto.

Mae cyflenwr ychwanegol wedi'i ychwanegu at y Rhestr Ddosbarthu hefyd ar ôl dosbarthu'r Dyfynbris Cyflym - Os edrychwch ar y stamp amser ar y dudalen Dyfynbrisiau Cyflym Cyhoeddedig, fe welwch fod y Dyfynbris Cyflym hwn wedi'i ddosbarthu'n wreiddiol ar 13/05/2013.

Nod y swyddogaeth **Statws Cadarnhau** yw eich helpu i sicrhau bod pob cyflenwr wedi cael y gwahoddiad a nodi sawl un sy'n bwriadu cyflwyno dyfynbris. Os bydd cyflenwr yn penderfynu gwrthod neu beidio ag ymateb, ni fydd hyn yn effeithio ar ei allu i gyflwyno dyfynbris. Caiff y Dyfynbris Cyflym ei restru yn y Rhestr o Ddyfynbrisiau Cyflym y Cyflenwr o hyd.

Noder: Os yw statws cyflenwr yn nodi "Dim Ymateb", fe'ch cynghorir i gysylltu ag ef er mwyn sicrhau ei fod wedi cael y gwahoddiad.

Rhoddir gwybodaeth hefyd ynghylch pryd y gwahoddwyd y cyflenwr a chan bwy. Bydd hyn yn cadarnhau p'un a gafodd cyflenwr ei ychwanegu at y Dyfynbris Cyflym ar ôl iddo gael ei ddosbarthu'n wreiddiol a chan ba ddefnyddiwr.

Yn yr un modd â hysbysiad o gontract arferol, gallwch ychwanegu gwybodaeth bellach i'r dyfynbris, newid y dyddiad cau ar gyfer ymatebion neu ganslo'r Dyfynbris Cyflym drwy'r weithfan Dyfynbrisiau Cyflym cyhoeddedig.

Os caiff ei ddewis, ymdrinnir â'r cyfleuster Cwestiynau ac Atebion yn yr un modd â hysbysiad o gontract.

Mae'r blwch postio yn gweithio yn yr un ffordd ag a wna gyda hysbysiad o gontract. Unwaith y byddwch wedi dadansoddi'r dyfynbrisiau ac wedi penderfynu ar y cyflenwr llwyddiannus, dylech hysbysu'r cyflenwyr drwy gyhoeddi Dyfarniad Dyfynbris Cyflym.

Os bydd unrhyw gyflenwyr yn cysylltu â'r prynwr ynghylch swyddogaethau Dyfynbris Cyflym, mae canllawiau i gyflenwyr yn yr ardal briodol.

Sut gallaf greu Dyfarniad Dyfynbris Cyflym?

O'ch Panel Rheoli Dyfynbris Cyflym, dewiswch y ddolen "Fy Nyfynbrisiau Cyflym Cyhoeddedig" neu "Dyfynbrisiau Cyflym Cyhoeddedig yr Awdurdod" os na wnaethoch greu'r Dyfynbris Cyflym.

Cliciwch ar deitl y Dyfynbris Cyflym cyhoeddedig yr hoffech greu Dyfarniad Dyfynbris Cyflym ar ei gyfer a chliciwch ar y botwm "Dyfarniad" i greu eich Dyfarniad Dyfynbris Cyflym.



Caiff y Dyfarniad Dyfynbris Cyflym anghyhoeddedig ei gadw o dan "Fy Nyfarniadau Dyfynbris Cyflym anghyhoeddedig" nes ei fod yn barod i'w ddosbarthu i'r cyflenwyr a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbris.

Mae'r templed ar gyfer y Dyfarniad Dyfynbris Cyflym yn cynnwys llawer o'r un cwestiynau â'r Dyfynbris Cyflym a chaiff yr atebion a roddir eu copïo i'ch hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym. Nodir y cwestiynau ychwanegol a ofynnir yn yr hysbysiad o ddyfarniad isod:

Gwerth y Dyfynbris Cyflym - At ddibenion ystadegol, dylech nodi gwerth y contract o dan y cwestiwn hwn. **Ni chaiff y gwerth hwn ei rannu â chynigwyr eraill.**

Dyddiad y Dyfarniad - Y dyddiad y dyfarnwyd y Dyfynbris Cyflym i'r cynigiwr/cynigwyr llwyddiannus.

Dyddiad Prynu neu Ddyddiadau Dechrau/Gorffen - At ddibenion adrodd, dylech naill ai nodi'r dyddiad prynu os yw'n bryniant untro neu'r dyddiad dechrau a'r dyddiad gorffen os yw'n gontract tymor.

Nifer y Dyfynbrisiau a dderbyniwyd - Nodwch nifer y dyfynbrisiau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r dyfynbris hwn.

Rhestr Cynigwyr Llwyddiannus - Dewiswch enw'r cynigiwr/cynigwyr llwyddiannus i'w ychwanegu at y rhestr o gynigwyr llwyddiannus.

Gwybodaeth Ychwanegol - Os yw'n berthnasol, gallwch ychwanegu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer eich Dyfarniad Dyfynbris Cyflym.

Dogfennaeth Cyflenwyr - Gallwch ddewis lanlwytho dogfen i'w hanfon at y cynigiwr/cynigwyr llwyddiannus ac un i'r cynigiwr/cynigwyr aflwyddiannus. Byddant yn derbyn y dogfennau hyn fel atodiadau i'r neges e-bost am y Dyfarniad Dyfynbris Cyflym.

Gwerthoedd cynigion y cyflenwyr - At ddibenion ystadegol, adrodd ac archwilio, dylech nodi'r cynigion a dderbyniwyd gan bob un o'r cynigwyr a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbris. Ni chaiff y wybodaeth hon ei dangos i'r cyhoedd na'i rhannu â chynigwyr.

Unwaith y byddwch wedi ateb pob un o'r cwestiynau perthnasol, bydd y broses o greu Dyfarniad Dyfynbris Cyflym wedi'i chwblhau a bydd gennych yr opsiwn o weld y Dyfarniad cyn iddo gael ei ddosbarthu, ei ddosbarthu neu ddychwelyd at eich gweithfan Dyfynbris Cyflym.

Beth fydd cyflenwyr yn ei dderbyn pan fyddaf yn rhyddhau Hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym?

Bydd y cyflenwr/cyflenwyr llwyddiannus yn cael neges e-bost yn ei/eu hysbysu bod ei/eu dyfynbris wedi bod yn llwyddiannus. Bydd yr hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym wedi'i atodi i'r neges e-bost

hon. Nid yw'r hysbysiad o ddyfarniad yn datgelu gwerth unrhyw gynigion a dderbyniwyd. Os byddwch yn dewis lanlwytho dogfen ar gyfer y cyflenwr llwyddiannus, caiff ei hatodi i'r neges e-bost hon.

Bydd y cyflenwr/cyflenwyr aflwyddiannus yn derbyn neges e-bost yn ei/eu hysbysu nad yw ei/eu dyfynbris wedi bod yn llwyddiannus. Bydd yr hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym wedi'i atodi i'r neges e-bost hon. Nid yw'r hysbysiad o ddyfarniad yn datgelu gwerth unrhyw gynigion a dderbyniwyd. Os byddwch yn dewis lanlwytho dogfen ar gyfer y cyflenwr aflwyddiannus, caiff ei hatodi i'r neges e-bost hon.

Sut gallaf ddadansoddi gweithgarwch Dyfynbris Cyflym?

Mae adroddiad ar gael sy'n nodi manylion yr holl Ddyfarniadau Dyfynbris Cyflym a wnaed dros gyfnod penodol. Gellir mynd i'r adroddiad o'r Panel Rheoli Dyfynbris Cyflym a darperir dolen hefyd ar y brif dudalen "adroddiadau". Gall unrhyw ddefnyddiwr â mynediad "Adroddwr" gynhyrchu'r adroddiad hwn.

Panel Rheoli Dyfynbris Cyflym



Mae'r adroddiad yn gofyn i chi nodi dyddiadau ac yna'n dangos rhestr o Ddyfarniadau Dyfynbris Cyflym a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod hwnnw, gyda'r opsiwn o weld fersiwn syml, lawrlwytho ar ffurf ffeil Excel neu ehangu'r manylion ar y sgrin.

Dadansoddi Dyfynbris Cyflym



Dadansoddi Dyfynbris Cyflym

Gallwch weld dadansoddiad o ddyfynbrisiau gyflym a ddyfarnwyd gan eich awdurdod. Nodwch ddyddiad dechrau a gorffen ar gyfer cyhoeddi dyfynbrisiau a chliciwch ar y botwm **Edrych ar** i gynhyrchu rhestr o Ddyfarniadau Dyfynbris Cyflym cyhoeddedig. Fel arall, ar gyfer defnyddwyr sydd wedi diffodd JavaScript neu ddefnyddwyr sy'n defnyddio darllenwyr sgrin, mae gennym **fersiwn syml** o'r dudalen dadansoddi dyfarniadau hon.

Gallwch ddefnyddio'r dolenni a ddarperir uwchlaw'r tabl canlyniadau i lawrlwytho'r adroddiad i ffeil **Excel** neu **CSV** i'w ddadansoddi ymhellach. Bydd rhes ar gyfer pob cyflenwr a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbris. Nodir manylion cyswllt a manylion y cwmni yn ogystal â statws y cynnig. Mae'r statws posibl fel a ganlyn:

- **Llwyddiant** - Anfonodd y cyflenwr ymateb i'r blwch postio a chafodd ei ddewis fel y cynigiwr llwyddiannus
- **Cynnig wedi'i wneud** - Anfonodd y cyflenwr ymateb i'r blwch postio ond ni chafodd ei ddewis fel y cynigiwr llwyddiannus
- **Wedi derbyn** - Derbyniodd y cyflenwr y gwahoddiad i gyflwyno dyfynbris ond ni anfonodd ymateb i'r blwch postio
- **Wedi gwrthod** - The supplier declined the invitation to quote
- **Dim Ymateb** - Ni ymatebodd y cyflenwr i'r gwahoddiad i gyflwyno dyfynbris

Noder: Gofynnir i bob un o ddefnyddwyr y porth adnewyddu eu cofrestriad yn flynyddol. Cânt eu dileu o'r gronfa ddata os byddant yn dewis peidio â gwneud hynny. Os nad yw cyflenwr a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbris ar gronfa ddata'r porth mwyach, nod **gysylltu â'r ddesg gymorth** a rhoi'r Rhif Defnyddiwr.

Ystod y Dyddiadau Cyhoeddi

* Dyddiad Dechrau: 10-Apr-2013

* Dyddiad Gorffen: 28-Jun-2013

Edrych ar

Canlyniadau Dadansoddi Dyfynbris Cyflym

Lawrlwytho fel Excel | Lawrlwytho fel CSV

3 daethpwyd o hyd i gofnodion. Neidio i dudalen 1 o 1 Ewch

Ehangu	Cyf y Ddogfen	Cyf Cyhoeddi	Cyhoeddwyd	Teitl	Cyhoeddwyd Gan	Adran	Math o Gontract
+	858	MAY045557	21/05/2013	Award of test	Line Olsen	test	One-off Purchase
+	734	MAY045487	17/05/2013	Award of Test Quick quote title	Robert Brown	asdf	One-off Purchase
+	633	MAY045457	13/05/2013	Award of Test quick quote		Product Development	One-off Purchase

Drwy ddewis ehangu'r manylion ar y sgrin, dangosir yr holl gyflenwyr a wahoddwyd ynghyd â gwybodaeth gysylltiedig, y categorïau nwyddau a ddewiswyd ar gyfer y Dyfynbris Cyflym, gwerth y cynigion a wnaed a statws cynnig y cyflenwr.

Ceir pum statws ar gyfer cyflenwyr:

Llwyddiant - cynigiwr llwyddiannus
Cynnig wedi'i wneud - cynigiwr aflwyddiannus
Wedi derbyn - derbyniodd y Dyfynbris Cyflym ond ni anfonodd ymateb
Wedi gwrthod - gwrthododd y gwahoddiad i gyflwyno dyfynbris
Anhysbys - ni wnaeth gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r Dyfynbris Cyflym

Os yw defnyddiwr wedi'i ddileu o'r gronfa ddata ers hynny, caiff ei rif adnabod ei arddangos yn lle hynny. Gall Staff Cymorth GwerthwchiGymru roi rhagor o wybodaeth am y defnyddiwr a ddilëwyd os cysylltir â hwy.

Canlyniadau Dadansoddi Dyfynbris Cyflym

Lawrlwytho fel Excel | Lawrlwytho fel CSV

1 daethpwyd o hyd i gofnodion. Neidio i dudalen 1 o 1 Ewch

Ehangu	Cyf y Ddogfen	Cyf Cyhoeddi	Cyhoeddwyd	Teitl	Cyhoeddwyd Gan	Adran	Math o Gontract
-	1625	JUN046036	28/06/2013	Award of gwasanaethau plymio	Duncan Dallas	Dallas	One-off Purchase

Invited Suppliers

Cyflenwr a Wahoddwyd	Enw Cyswllt	E-bost	Maint	Trosiant	Ymatebwyd	Gwerth y Cynnig	Gwerth y Contract
Millstream at Drumlithie	Marjorie Utility Robertson	marjorie@klickstream.co.uk	1	£1 - £5.6 million	Success	77	0
Eds test	Ed Ryan	jules902@ntlworld.com	1	Less than £1 million	Bid Made	78	
Business Wales	Helen Evans	helen.evans@businesswales.org.uk	Unknown	Less than £1 million	No response		
Business Wales	Llinos Price	llinos.price@hotmail.co.uk	26 to 100	£5.7 - £22.8 million	No response		
Oliver Solutions Ltd	Helen Oliver	helen.xchangewales@live.co.uk	1	Less than £1 million	No response		
Business Wales	Elgan Richards	elgan.richards@businesswales.org.uk	26 to 100	£1 - £5.6 million	No response		

Mae'r ffeil Excel yn rhestru pob cyflenwr ar linell ar wahân, gan alluogi'r prynwr i ddidoli cyflenwyr yn ôl unrhyw golofn ofynnol. Mae'r colofnau yn y ffeil Excel fel a ganlyn:

RHIFADNABODDOGFEN - Rhif cyfeirnod dewin yr Hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym.
RHIFCYFCYHOEDDWR – Rhif adnabod yr Hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym ar y wefan.
SEFYDLIAD – Enw eich sefydliad.
DYDDIADCYHOEDDI – Y dyddiad y dosbarthwyd yr hysbysiad o ddyfarniad.
ENWCYHOEDDWR – Enw'r unigolyn a ddosbarthodd yr Hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym.
TEITL - Teitl yr Hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym.
ADRAN – Yr Adran a nodir yn yr Hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym.
MATHOGONTRACT – P'un a yw'r contract ar gyfer pryniant untro neu gontract tymor penodol.
ENWCYFLENWR – Enw cwmni'r cyflenwr a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbris.
EBOSTCYFLENWR – Cyfeiriad e-bost y cyflenwr a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbris.
ENWCYSWLLTCYFLENWR – Enw'r cyflenwr a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbris.

YSTODTROSIANT – Ystod trosiant y cyflenwr a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbris.
YSTODCYFLOGEION – Ystod cyflogeion y cyflenwr a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbris.
STATWSCYFLENWR – Statws gweithgarwch y cyflenwr - p'un a dderbyniodd y gwahoddiad, p'un a wnaeth gynnig, p'un a ddyfarnwyd contract iddo.
GWERTHCYNNIG – Os yw'n berthnasol, gwerth cynnig y cyflenwr fel y'i rhoddwyd yn yr Hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym.
GWERTHCONTRACT - Os dyfarnwyd y contract i'r cyflenwr, gwerth y dyfarniad fel y'i rhoddwyd yn yr Hysbysiad Dyfarnu Dyfynbris Cyflym.
CODAUNWYDDAU – Y cod(au) nwyddau a ddewiswyd ar gyfer yr ymarfer Dyfynbris Cyflym.